WYTH MODD ARBED YNNI

ER MWYN ARBED ARIAN

Ystyriwch eich ynni pan symudwch i le newydd. Gall y gweithredu rhwydd canlynol docio eich biliau a'ch ôl troed carbon ble bynnag y byddwch yn byw o hyn ymlaen.

Gwnewch chi eich hun yn gyfrifol

Os ydych yn talu'r biliau, gofynnwch i'ch landlord am fanylion y cyflenwr a sefydlwch gyfrif (newidiwch os canfyddwch well fargen). Tynnwch lun o'r mesurydd/mesuryddion ar y diwrnod y symudwch i mewn, cyflwynwch ddarlleniadau'n rheoliad, a thalwch trwy ddebyd uniongyrchol er mwyn cael ychydig o ostyngiad.

Gwisgwch ragor

Mae gwisgo rhagor o ddillad wastad yn rhatach na thwymo'r ystafell. Rhowch boteli dŵr poeth a phlancedi trydan ar eich rhestr Nadolig.

Mae gwres yn ganolog



Wedi gwisgo rhagor, trowch eich thermostat i lawr Mae: 21°C yn iawn ar gyfer ystafell fyw a 18°C ar gyfer pobman arall. Caewch ddrysau y tu ôl i chi i gadw gwres i mewn a throwch reiddiaduron i lawr mewn ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Digon yw digon yn y gawod

Mae cawod 10 munud yn ddrud (yn enwedig os oes gennych gawodau trydan) ac yn eich gwneud yn hwyr ar gyfer darlithoedd. Amcanwch at bedair munud.

severn wye

Cegin bwyta arian?

Gall ceginau fod yn ddrud iawn felly cadwch gaeadau ar sosbenni, coginiwch lwyth ar unwaith, a defnyddiwch ficrodon i aildwymo bwyd neu bopty araf i goginio prydau'n rhatach.

Tynnu'r llen ar nosweithiau oer

Caewch eich llenni gyda'r nos a gwthiwch nhw y tu ôl i reiddiaduron. Os oes gennych chi wydro sengl, prynwch gaenen blastig arbennig sy'n hawdd ei gosod ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Dim berwi dillad

Golchi llwyth llawn ar 30°C amdani, a'u sychu y tu allan neu gyda pheiriant sychu, gan agor ffenestr. Peidiwch byth â rhoi dillad ar reiddiadur, oherwydd mae hynny'n achosi...

Ileithder a llwydni: rhaid awyru!

Gall llwydni ddifrodi gwaith paent, difetha dillad ac achosi neu waethygu cyflyrau fel y fogfa. Felly caewch ddrysau ystafelloedd ymolchi a cheginau wrth eu defnyddio, defnyddiwch ffaniau echdynnu, neu'n well (ac yn rhatach) agorwch rai ffenestri. Mae angen 20 munud i gael gwared ar anwedd.

Os gallwch wneud y rhai hyn oll, cewch farciau llawn am effeithlonrwydd ynni cartref beth bynnag arall sy'n digwydd eleni. Pob hwyl!

ARBEDWCH ARIAN, ARBEDWCH Y BLANED

severn wye

Edrychwch ar fwy o awgrymiadau arbed ynni yma:

severnwye.org.uk

@Severn_Wye

Mae Asiantaeth Ynni Severn Wye'n galluogi pobl i newid y modd y defnyddiwn ynni er mwyn diwallu'r angen brys am gartrefi twym, iach nawr, a chreu dyfodol carbon isel wedi'i yrru gan ynni glân. (Rhif cwmni 03830608, Rhif elusen 1083812).